# Safonau proffesiynol diwygiedig ar gyfer ymarferwyr addysg yng Nghymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



## Canllawiau

Cylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif: 020/2011
Dyddiad cyhoeddi: Medi 2011

# Safonau proffesiynol diwygiedig ar gyfer ymarferwyr addysg yng Nghymru

**Cynulleidfa**

Cyrff Llywodraethu a phenaethiaid yr holl ysgolion a gynhelir yng Nghymru; athrawon; Cynorthwywyr Addysg Lefel Uwch; awdurdodau lleol; awdurdodau esgobaethol; cymdeithasau proffesiynol; Llywodraethwyr Cymru; undebau a chymdeithasau athrawon ac eraill; sefydliadau addysg uwch; sefydliadau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon; sefydliadau addysg bellach; Estyn; Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CynACC); adrannau addysg; asiantaethau cyflenwi.

**Trosolwg**

Mae'r ddogfen hon yn pennu'r safonau proffesiynol ar gyfer:

- Cynorthwywyr Addysg Lefel Uwch (CALU)
- Safonau Athrawon wrth eu Gwaith
- Safonau Arweinyddiaeth.

**Camau i'w cymryd**

Dylai ymarferwyr a rhanddeiliaid wybod, o 1 Medi 2011 ymlaen:

i. bydd y Safonau Diwygiedig ar gyfer Cynorthwywyr Addysg Lefel Uwch (CALU) diwygiedig 2011 yn disodli'r safonau presennol ar gyfer CALU

ii. bydd y Safonau Athrawon wrth eu Gwaith yn disodli'r Safonau Diwedd Sefydlu presennol

iii. bydd y Safonau Arweinyddiaeth yn disodli'r Safonau Cenedlaethol presennol ar gyfer Penaethiaid.

Dylai ymarferwyr addysg yng Nghymru ddefnyddio'r safonau diwygiedig hyn ar yr adegau priodol hynny yn eu gyrfaoedd.

**Rhagor o wybodaeth**

Yr Is-adran Gwella Dysgu a Datblygiad Proffesiynol
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 6076
e-bost: practicereviewanddevelopment@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol**

Mae'r canllawiau hyn ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, yn: www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

**Dogfennau cysylltiedig**

*Safonau proffesiynol diwygiedig ar gyfer ymarferwyr addysg yng Nghymru* Dogfen Ymgynghori (2011)

*Safonau proffesiynol diwygiedig ar gyfer ymarferwyr addysg yng Nghymru* Ymgynghoriad – srynodeb o'r ymatebion (2011)

ISBN 978 0 7504 6546 5
© Hawlfraint y Goron 2011
WG13404

# Cynnwys

Cyflwyniad 1

Safonau proffesiynol diwygiedig ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu
Lefel Uwch (CALU) 3

Safonau Athrawon wrth eu Gwaith 7

Safonau Arweinyddiaeth 11

# Cyflwyniad

## Safonau Proffesiynol ar gyfer Ymarferwyr Addysg yng Nghymru

Datganiadau yw'r Safonau o'r hyn sydd gan ymarferwyr o ran

- Nodweddion a Gwerthoedd Proffesiynol.
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth.
- Sgiliau.

Maent yn egluro'r hyn a ddisgwylir ym mhob cam yng ngyrfa'r ymarferydd ac yn ei helpu i bennu pa bethau y mae angen iddo ddatblygu'n broffesiynol er mwyn datblygu'i yrfa.

**Pam y mae angen safonau proffesiynol arnom?**

Diben cyffredinol y safonau proffesiynol yw codi safonau addysgu a gwella deilliannau dysgwyr ledled Cymru. Mae'r safonau proffesiynol yn disgrifio'r ddealltwriaeth, yr wybodaeth a'r gwerthoedd y mae'n rhaid i'n hathrawon, ein harweinwyr a'n Cynorthwywyr Addysg Lefel Uwch eu dangos. Maent yn darparu fframwaith i alluogi ymarferwyr i bennu eu hamcanion rheoli perfformiad a dewis y gweithgareddau datblygu proffesiynol mwyaf priodol.

**Pa safonau sydd wedi newid?**

**a)** **Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch (CALU).**

**b)** Mae'r **Safonau Athrawon wrth eu Gwaith** yn disodli'r Safon Diwedd Sefydlu.

**c)** Mae'r **Safonau Arweinyddiaeth** yn disodli'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Penaethiaid yng Nghymru.

# Safonau proffesiynol diwygiedig ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch (CALU) yng Nghymru

Rhaid i bawb y dyfernir statws CALU iddynt fodloni'r holl safonau canlynol.

| | |
|---|---|
| **Nodweddion proffesiynol** | |
| 1. | Meddu ar ddisgwyliadau uchel o blant a phobl ifanc ac ymrwymiad i'w helpu i wireddu eu potensial addysgol yn llawn. |
| 2. | Sefydlu perthynas deg, barchus, gefnogol ac adeiladol â phlant a phobl ifanc. |
| 3. | Dangos y gwerthoedd, yr agweddau a'r ymddygiad cadarnhaol y maen nhw'n eu disgwyl gan blant a phobl ifanc. |
| 4. | Cyfathrebu'n effeithiol ac yn sensitif â phlant, pobl ifanc, cydweithwyr, rhieni a gofalwyr. |
| 5. | Cydnabod a pharchu'r cyfraniad gall rhieni a gofalwyr ei wneud i ddatblygiad a lles plant a phobl ifanc. |
| 6. | Dangos ymrwymiad i gydweithio â chydweithwyr ac asiantaethau allanol. |
| 7. | Gwella eu gwybodaeth a'u harfer eu hunain gan gynnwys ymateb i gyngor ac adborth. |
| | |
| **Gwybodaeth a dealltwriaeth broffesiynol** | |
| 8. | Deall y ffactorau allweddol sy'n effeithio ar ddysgu a chynnydd plant a phobl ifanc. |
| 9. | Gwybod sut i gyfrannu at ddarpariaeth wedi'i phersonoli effeithiol drwy roi ystyriaeth ymarferol i gynhwysiant, ac anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn benodol. |
| 10. | Meddu ar ddealltwriaeth ddigonol o'u maes (meysydd) arbenigedd i gynorthwyo plant a phobl ifanc i ddatblygu, dysgu a gwneud cynnydd. |
| 11. | Wedi cyflawni lefel 2 (neu uwch) y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol mewn Cymraeg (iaith gyntaf) neu Saesneg/llythrennedd a mathemateg/rhifedd. |
| 12. | Gwybod sut i ddefnyddio TGCh i gefnogi eu gweithgareddau proffesiynol. |
| 13. | Gwybod sut mae fframweithiau statudol ac anstatudol ar gyfer y cwricwlwm ysgol yn cysylltu ag ystod gallu ac oedran y dysgwyr y maen nhw'n eu cynorthwyo. |
| 14. | Deall amcanion, cynnwys a chanlyniadau arfaethedig y gweithgareddau dysgu y maen nhw'n cymryd rhan ynddynt. |
| 15. | Gwybod sut i helpu pob dysgwr i ddilyn y cwricwlwm yn unol â'r cod ymarfer anghenion addysgol arbennig (AAA), *Cod Ymarfer AAA Cymru,* a deddfwriaeth ym maes anabledd. |
| 16. | Gwybod sut mae fframweithiau eraill sy'n cefnogi datblygiad a lles plant a phobl ifanc yn effeithio ar eu hymarfer. |

| **Gwybodaeth a dealltwriaeth broffesiynol** |
|---|
| 17. Deall y cyd-destun polisi addysg cenedlaethol yng Nghymru a blaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg, gan gynnwys defnyddio'r Cwricwlwm Cymreig fel sail i'w hymarfer. |
| 18. Deall sut mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc yn cael eu defnyddio fel sail i'w hymarfer. |
| |
| **Sgiliau proffesiynol** |
| |
| *Cynllunio a disgwyliadau* |
| 19. Defnyddio eu maes (meysydd) arbenigedd i gyfrannu at waith yr athrawon wrth gynllunio a pharatoi gweithgareddau dysgu. |
| 20. Defnyddio eu maes (meysydd) arbenigedd i gynllunio eu rôl mewn gweithgareddau dysgu. |
| 21. Llunio gweithgareddau ag iddynt strwythur clir sydd o ddiddordeb i ddysgwyr ac yn eu symbylu ac yn datblygu eu dysgu. |
| 22. Cynllunio sut byddant yn cefnogi'r broses o gynnwys y plant a'r bobl ifanc yn y gweithgareddau dysgu. |
| 23. Cyfrannu at ddethol a pharatoi adnoddau sy'n addas ar gyfer diddordebau a galluoedd plant a phobl ifanc. |
| |
| *Monitro ac asesu* |
| 24. Monitro ymatebion dysgwyr i weithgareddau ac addasu'r dull gweithredu yn unol â hynny. |
| 25. Monitro cynnydd dysgwyr er mwyn darparu cymorth ac adborth penodol. |
| 26. Cefnogi'r broses o werthuso cynnydd dysgwyr gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau asesu. |
| 27. Cyfrannu at y gwaith o gynnal a dadansoddi cofnodion cynnydd dysgwyr. |
| |
| *Gweithgareddau addysgu a dysgu* |
| 28. Cydnabod ac ymateb yn briodol i sefyllfaoedd sy'n herio cyfle cyfartal. |
| 29. Defnyddio strategaethau effeithiol i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol. |
| 30. Defnyddio eu sgiliau TGCh i ddatblygu'r dysgu. |
| 31. Datblygu'r dysgu wrth weithio gydag unigolion. |
| 32. Datblygu'r dysgu wrth weithio gyda grwpiau bach. |
| 33. Datblygu'r dysgu wrth weithio gyda dosbarthiadau cyfan heb yr athro/athrawes penodedig. |
| 34. Trefnu a rheoli gweithgareddau dysgu mewn ffyrdd sy'n cadw'r dysgwyr yn ddiogel. |
| 35. Lle y bo'n berthnasol, cyfarwyddo gwaith oedolion eraill wrth gefnogi'r dysgu. |

| **Sgiliau proffesiynol** |
| --- |
| |
| *Gweithgareddau addysgu a dysgu* |
| 36. Datblygu dysgu sy'n ystyried anghenion dysgu ychwanegol (ADY) dysgwyr. |

## Safonau Athrawon wrth eu Gwaith

Dylai athrawon fodloni'r Safonau Athrawon wrth eu Gwaith canlynol ar ddiwedd y cyfnod sefydlu a pharhau i'w bodloni gydol eu gyrfa dysgu.

| | |
|---|---|
| **Nodweddion a gwerthoedd proffesiynol** | |
| 1. | Gwerthfawrogi’r amrywiol anghenion sydd gan blant a phobl ifanc. |
| 2. | Rhoi gwerth ar berthynas deg, barchus, llawn ymddiriedaeth, gefnogol ac adeiladol â phlant a phobl ifanc. |
| 3. | Meddu ar ddisgwyliadau uchel o blant a phobl ifanc er mwyn gwella'r deilliannau ar gyfer pob dysgwr a gwella eu lles. |
| 4. | Gwerthfawrogi pa mor bwysig yw meithrin cysylltiadau cadarnhaol rhwng y cartref a'r ysgol. |
| 5. | Gwerthfawrogi'r rhan weithredol y mae plant a phobl ifanc yn ei chymryd yn eu cynnydd, eu datblygiad a'u lles eu hunain. |
| 6. | Gwerthfawrogi'r rhan weithredol y mae rhieni a gofalwyr yn ei chymryd yng nghynnydd, datblygiad a lles plant a phobl ifanc. |
| 7. | Gwerthfawrogi'r cyfraniad y mae plant a phobl ifanc yn ei wneud yn eu cymunedau, a'i ddathlu. |
| 8. | Gwerthfawrogi'r cyfraniad y mae staff cymorth a gweithwyr proffesiynol eraill yn ei wneud i ddysgu, datblygiad a lles plant a phobl ifanc. |
| 9. | Cymryd rhan weithredol mewn rhwydweithiau proffesiynol a chymunedau dysgu sy'n rhannu rhagdybiaethau a dealltwriaeth gyda chydweithwyr, ac yn eu treialu, a chyfrannu at ddatblygiad ehangach yr ysgol a'r proffesiwn. |
| 10. | Gwerthfawrogi pa mor bwysig yw sicrhau bod ymarfer yn gwella drwy bwyso a mesur a chymryd cyfrifoldeb dros eu datblygiad proffesiynol parhaus. |
| 11. | Meddu ar ddisgwyliadau uchel o ran datblygu’r iaith Gymraeg yn unol â natur ddwyieithog Cymru. |
| | |
| **Gwybodaeth a dealltwriaeth proffesiynol** | |
| 12. | Meddu ar yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddiweddaraf am ddyletswyddau a chyfrifoldebau proffesiynol athrawon a'r fframwaith statudol y maen nhw'n gweithio ynddo. |
| 13. | Deall y cyd-destun polisi addysg cenedlaethol yng Nghymru a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg, gan gynnwys deall egwyddorion y Cwricwlwm Cymreig a sut y dylid ei ddefnyddio fel sail i’w hymarfer. |
| 14. | Defnyddio dealltwriaeth o ddisgwyliadau, trefniadaeth ac addysgeg y cyfnodau allweddol neu'r cyfnodau cyn a/neu ar ôl y rhai y maen nhw'n eu dysgu fel sail i'w hymarfer a'u cynllunio. |
| 15. | Deall y ffactorau allweddol sy'n effeithio ar ddysgu a lles plant a phobl ifanc. |

| | |
|---|---|
| 16. | Parhau i gaffael yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddiweddaraf mewn perthynas â'u pynciau/meysydd cwricwlwm a'r addysgeg berthnasol i'w defnyddio fel sail i'w hymarfer. |
| 17. | Deall eu rôl i wella sgiliau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. |
| 18. | Parhau i gaffael gwybodaeth a dysgu ym maes TGCh i gefnogi'r addysgu a'r dysgu, ac yn eu rôl broffesiynol ehangach. |
| 19. | Deall *Cod Ymarfer AAA Cymru* a'i gymhwyso i fodloni amrywiol anghenion dysgwyr. |
| 20. | Deall pryd y mae'n briodol i ofyn am wybodaeth, cyngor a chefnogaeth o ffynonellau mewnol ac allanol, gan gynnwys gweithdrefnau diogelu plant, a sut mae gwneud hynny. |
| 21. | Bod yn ymwybodol o strategaethau amrywiol a gwybod sut i'w defnyddio i annog ymddygiad da a chreu amgylchedd dysgu pwrpasol. |
| 22. | Deall sut y gellid defnyddio Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc fel sail i'w hymarfer ac i wella deilliannau dysgwyr. |
| 23. | Dealltwriaeth o'r disgwyliadau yn y cwricwlwm mewn perthynas â darpariaeth cyfrwng Cymraeg a/neu Gymraeg ail iaith. |
| | |
| **Sgiliau Proffesiynol** | |
| | |
| *Cynllunio a gosod targedau* | |
| 24. | Gosod amcanion addysgu a dysgu heriol sy'n cael eu harwain gan ddisgwyliadau deallus am ddysgwyr unigol yn seiliedig ar wybodaeth am safonau disgwyliedig y grŵp oedran perthnasol ac ystod a chynnwys y gwaith sy'n briodol i ddysgwyr yn y grŵp oedran hwnnw. |
| 25. | Defnyddio'r amcanion addysgu a dysgu hyn i gynllunio gwersi, a chyfresi o wersi, sy'n dangos yn glir sut y bydd gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y dysgwyr yn cael eu hasesu. |
| 26. | Personoli'r dysgu er mwyn rhoi sylw i anghenion unigol gan gynnwys ceisio barn y dysgwyr am beth fyddai o gymorth iddynt gyflawni eu potensial. |
| 27. | Pennu adnoddau i gefnogi'r dysgu a fydd yn ysgogi ac yn symbylu pob dysgwr i gyflawni'r deilliannau a ddymunir. |
| 28. | Gweithio'n effeithiol fel aelod o dîm a chydweithio â chydweithwyr i gynllunio gwaith a phennu targedau. |
| 29. | Cynllunio er mwyn i'r staff cymorth gymryd rhan briodol yn y gwaith o gefnogi'r dysgu a sicrhau eu bod yn deall y rolau mae disgwyl iddynt eu cyflawni. |
| 30. | Cynllunio cyfleoedd priodol i blant a phobl ifanc ddysgu mewn lleoliadau y tu allan i'r ystafell ddosbarth. |
| 31. | Trefnu, rheoli a blaenoriaethu amser yn effeithiol o fewn eu rôl broffesiynol ehangach. |

| **Sgiliau Proffesiynol** |
|---|
| |
| *Cynllunio a gosod targedau* |
| 32. Sefydlu a chynnal dulliau cyfathrebu effeithiol â phlant, pobl ifanc a’u rhieni/gofalwyr. |
| |
| *Monitro ac asesu* |
| 33. Defnyddio amrywiaeth o strategaethau monitro ac asesu, gan gynnwys asesiadau ffurfiannol a chyfunol, i werthuso cynnydd y dysgwyr tuag at gyflawni eu hamcanion dysgu, a defnyddio'r wybodaeth hon i wella eu gwaith cynllunio ac addysgu eu hunain. |
| 34. Bodloni'r gofynion a'r trefniadau asesu ar gyfer y pynciau/meysydd cwricwlwm a chyfnodau y maen nhw'n eu dysgu, gan gynnwys y rheini sy'n gysylltiedig ag arholiadau a chymwysterau cyhoeddus. |
| 35. Defnyddio technegau monitro ac asesu i nodi a chefnogi dysgwyr, gan gynnwys: y rheini ag anghenion dysgu ychwanegol; dysgwyr sy'n fwy abl a thalentog; dysgwyr sy'n gweithio ar lefel is na'r disgwyl ar gyfer eu hoed; dysgwyr sy'n methu â chyrraedd eu potensial; a dysgwyr ag anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol. |
| 36. Cynnwys dysgwyr yn y gwaith o osod targedau ac wrth bwyso a mesur eu perfformiad a'i werthuso. |
| 37. Monitro a chofnodi cynnydd a chyflawniadau dysgwyr i ddarparu tystiolaeth o ystod eu gwaith, eu cynnydd a'u cyrhaeddiad dros gyfnod o amser, gan ystyried cyfranogiad a safbwynt y dysgwr. |
| 38. Rhoi adborth cywir ac adeiladol i ddysgwyr ar eu cryfderau, eu gwendidau, eu cyrhaeddiad, eu cynnydd, a'r meysydd i'w datblygu, gan gynnwys cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella. |
| 39. Rhoi adborth amserol, cywir ac adeiladol i gydweithwyr, rhieni a gofalwyr ar gyrhaeddiad dysgwyr, eu cynnydd, a'r meysydd i'w datblygu, gan ddefnyddio cofnodion ategol a thystiolaeth arall. |
| |
| *Addysgu a rheoli'r dysgu* |
| 40. Sefydlu a chynnal amgylcheddau dysgu effeithiol, lle mae pob dysgwr yn teimlo'n ddiogel a hyderus. |
| 41. Dysgu'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol a disgwyliedig sy'n berthnasol i anghenion y dysgwr, gan wneud defnydd priodol o'r canllawiau cenedlaethol perthnasol. |
| 42. Cynnig darpariaeth wedi'i phersonoli effeithiol wrth addysgu, gan gynnwys rhoi ystyriaeth ymarferol i amrywiaeth a hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant. |
| 43. Herio achosion o ragfarnu, stereoteipio, bwlïo ac aflonyddu, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r ysgol. |
| 44. Dysgu gwersi neu gyfresi o waith ag iddynt strwythur clir fel bod pob dysgwr yn deall yr amcanion dysgu arfaethedig, ac yn eu bodloni. |

| **Sgiliau Proffesiynol** | |
|---|---|
| | |
| *Addysgu a rheoli'r dysgu* | |
| 45. | Defnyddio strategaethau addysgu priodol sy'n datblygu gallu pob dysgwr i weithio ar y cyd ac yn annibynnol. |
| 46. | Datblygu ar amrywiol brofiadau, cyflawniadau a diddordebau'r dysgwyr i'w helpu i wneud cynnydd. |
| 47. | Rheoli'r amser addysgu a dysgu yn effeithiol. |
| 48. | Rheoli'r amgylchedd dysgu ffisegol, yr offer, deunyddiau, testunau ac adnoddau eraill yn ddiogel ac effeithiol. |
| 49. | Defnyddio strategaethau addysgu priodol i sicrhau ymddygiad cadarnhaol. |
| 50. | Defnyddio strategaethau addysgu priodol i hyrwyddo lles plant a phobl ifanc. |
| 51. | Defnyddio strategaethau addysgu priodol i hyrwyddo cynnydd a deilliannau da i ddysgwyr dros gyfnod estynedig o amser. |
| 52. | Defnyddio TGCh yn effeithiol wrth addysgu a dysgu. |
| 53. | Annog dysgwyr i wneud cynnydd annibynnol drwy ddarparu gweithgareddau neu gyfleoedd eraill i astudio y tu allan i oriau ysgol, sy'n ategu’r gwaith a wneir yn yr ysgol, ac yn ymestyn arno. |
| 54. | Cydweithio ag athrawon a chydweithwyr eraill, gan gynnwys y rheini o asiantaethau allanol, i wella dysgu a lles y rheini y maen nhw'n eu haddysgu. |
| 55. | Hyrwyddo dealltwriaeth dysgwyr o natur ddwyieithog Cymru a datblygu eu sgiliau dwyieithog fel sy'n briodol. |

# Safonau Arweinyddiaeth

## Cyflwyniad

Mae'r adrannau canlynol yn amlinellu'r Safonau Arweinyddiaeth fel ag y maent yn berthnasol i benaethiaid ac ymarferwyr eraill. Ar gyfer ymarferwyr eraill, athrawon a staff cymorth, mae'r safonau arweinyddiaeth yn gyfrwng i gefnogi'r gwaith parhaus o ddatblygu arweinyddiaeth.

### Pennu Cyfeiriad Strategol

Mae gallu meddwl am y dyfodol mewn ffordd adeiladol yn hanfodol ar gyfer arweinyddiaeth effeithiol. Dylai arweinwyr greu gweledigaeth strategol gyffredinol a chorfforaethol sy’n ysbrydoli ac yn ysgogi pob aelod o gymuned yr ysgol. Dylai’r weledigaeth hon ymgorffori gwerthoedd addysgol a phwrpas moesol y tîm arweinyddiaeth a’r corff llywodraethu i sicrhau bod yr ysgol yn gwella a datblygu.

| **Pennu Cyfeiriad Strategol** | |
|---|---|
| 1. | Sicrhau bod y weledigaeth ar gyfer yr ysgol yn cael ei chyfleu’n glir, ei rhannu, ei deall, ac yn cael ei gweithredu’n effeithiol gan bawb. |
| 2. | Gweithio o fewn cymuned yr ysgol i droi’r weledigaeth yn amcanion a chynlluniau gweithredu y cytunwyd arnynt, a fydd yn sicrhau bod yr ysgol yn gwella’n barhaus. |
| 3. | Ymgorffori’r weledigaeth a gwerthoedd trwy eu hymarfer dyddiol a thrwy eiriolaeth barhaus. |
| 4. | Ysgogi a gweithio gydag eraill i greu hinsawdd ysgol effeithiol a diwylliant a rennir gan bawb. |
| 5. | Defnyddio creadigrwydd, arloesedd a thechnolegau newydd i gyflawni rhagoriaeth. |
| 6. | Sicrhau bod cynlluniau strategol yn ystyried amrywiaeth, gwerthoedd, profiad a chyd-destun yr ysgol a’r gymuned ehangach. |
| 7. | Datblygu’r ysgol ar sail ymrwymiad i wella’n barhaus a datblygiad cynaliadwy. |

### Arwain ar Ddysgu ac Addysgu

Mae sicrhau bod y dysgu a’r addysgu’n effeithiol yn ganolog i fwriad yr ysgol. Mae’r arweinwyr, trwy weithio gyda’r staff a’r llywodraethwyr, yn creu’r amodau a’r strwythurau i gefnogi dysgu ac addysgu effeithiol i bawb.

Mae arweinwyr yn uniongyrchol gyfrifol am safon y dysgu a’r addysgu ac am gyflawniad y dysgwyr. Mae hyn yn golygu gosod disgwyliadau uchel a monitro a gwerthuso effeithiolrwydd y deilliannau dysgu. Dylai’r hinsawdd a’r diwylliant dysgu sy’n cael ei chreu yn yr ysgol alluogi’r dysgwyr i fod yn ddysgwyr effeithiol, brwdfrydig ac annibynnol, a fydd wedi ymrwymo i ddysgu gydol oes, ac yn barod ar ei gyfer.

| Arwain ar Ddysgu ac Addysgu | |
|---|---|
| 8. | Sicrhau ffocws cyson a pharhaus gan yr ysgol gyfan ar gyflawniad y dysgwyr. |
| 9. | Sicrhau bod hinsawdd yr ysgol a'r ystafell ddosbarth yn hyrwyddo dysgu ac addysgu effeithiol i bawb. |
| 10. | Hyrwyddo cydraddoldeb rhwng llwybrau dysgu academaidd, galwedigaethol a dysgu drwy brofiad. |
| 11. | Sicrhau bod dysgu yn ganolog i unrhyw waith cynllunio strategol a rheoli adnoddau. |
| 12. | Datblygu polisïau ac arferion i sicrhau cynhwysiant cymdeithasol i bob dysgwr er mwyn sicrhau bod eu hanghenion dysgu unigol yn cael eu bodloni. |
| 13. | Hyrwyddo a sefydlu polisïau a gynlluniwyd i alluogi dysgwyr i ddod yn annibynnol a chaffael sgiliau meddwl a dysgu. |
| 14. | Sefydlu dulliau creadigol, ymatebol ac effeithiol o ddysgu ac addysgu ym mhob pwnc er mwyn diwallu a chefnogi amcanion yr ysgol. |
| 15. | Sefydlu a meithrin ethos o her a chefnogaeth lle gall pob dysgwr lwyddo a bod yn rhan o'i ddysgu ei hunan. |
| 16. | Rhoi strategaethau ar waith sy'n sicrhau safonau uchel o ymddygiad a phresenoldeb. |
| 17. | Trefnu a gweithredu'r cwricwlwm fel ei fod yn bodloni anghenion cwricwlwm cenedlaethol Cymru. |
| 18. | Rhoi strategaethau ar waith sy'n sicrhau gweithdrefnau asesu effeithiol, gan gynnwys asesu ar gyfer dysgu. |
| 19. | Datblygu polisïau a gweithdrefnau sy'n hyrwyddo dealltwriaeth dysgwyr o natur ddwyieithog Cymru a datblygu eu sgiliau dwyieithog fel sy'n briodol. |
| 20. | Ymgymryd â rôl strategol wrth ddatblygu technolegau newydd i wella ac ymestyn profiadau dysgwyr wrth ddysgu a gallu athrawon wrth addysgu. |
| 21. | Monitro a gwerthuso'r cwricwlwm a'i asesu a nodi meysydd i'w gwella a gweithredu arnynt. |
| 22. | Cael ei weld o amgylch yr ysgol ac yn neilltuo cryn amser i gyfathrebu gyda dysgwyr, staff a rhieni. |
| 23. | Rhoi strategaethau ar waith i sicrhau bod anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr yn cael eu bodloni. |

## Datblygu a Gweithio gydag Eraill

Mae cysylltiadau effeithiol yn arbennig o bwysig ym maes arweinyddiaeth gan fod arweinwyr, a phenaethiaid yn arbennig, yn gweithio gyda'r gymuned ysgol gyfan. Mae arweinyddiaeth yn cynnwys sefydlu cymunedau dysgu proffesiynol sy'n galluogi pawb i gyflawni. Trwy reoli perfformiad a datblygiad proffesiynol parhaus effeithiol, mae arweinwyr yn galluogi pob aelod o'r staff i gyflawni safonau uchel. Dylai arweinwyr fod yn ymrwymedig i'w datblygiad proffesiynol eu hunain er mwyn sicrhau bod ganddynt y gallu i fynd i'r afael â chymhlethdodau eu rôl a'r amrywiaeth o sgiliau a gweithredoedd arwain sydd eu hangen arnynt.

| Datblygu a Gweithio gydag Eraill | |
|---|---|
| 24. | Trin pobl yn deg, yn gydradd ac ag urddas a pharch i greu a chynnal hinsawdd gadarnhaol yn yr ysgol. |
| 25. | Rhannu a dosbarthu arweinyddiaeth. |
| 26. | Datblygu, grymuso a chynnal timau effeithiol. |
| 27. | Creu amgylchedd y gall eraill ddatblygu'n broffesiynol ynddo. |
| 28. | Datblygu a meithrin potensial arweinyddiaeth mewn eraill er mwyn datblygu ar y gallu i arwain yn yr ysgol. |
| 29. | Datblygu diwylliant dysgu cydweithredol yn yr ysgol a chwilio am gyfleoedd i greu cysylltiadau â sefydliadau addysgol eraill i ddatblygu cymunedau dysgu effeithiol. |
| 30. | Sicrhau bod yr ysgol yn cyfrannu, lle yn briodol, at hyfforddiant athrawon y dyfodol ac oedolion eraill sy'n gweithio gyda dysgwyr. |
| 31. | Datblygu a chynnal strategaethau a gweithdrefnau effeithiol ar gyfer sefydlu staff, datblygiad proffesiynol cynnar a pharhaus ac adolygu perfformiad. |
| 32. | Sicrhau bod y gwaith a wneir gan dimau ac unigolion yn cael ei gynllunio, ei ddyrannu, ei gefnogi a'i werthuso'n effeithiol, gan sicrhau bod tasgau a chyfrifoldebau'n cael eu dirprwyo'n glir. |
| 33. | Cydnabod cyfrifoldebau a chyflawniadau unigolion a thimau, a'u dathlu. |
| 34. | Adolygu a phwyso a mesur eu hymarfer yn rheolaidd, pennu targedau personol a chymryd cyfrifoldeb dros eu datblygiad personol. |
| 35. | Rhoi sylw i'w baich gwaith eu hunain a phobl eraill i sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. |
| 36. | Sicrhau bod trefniadau effeithiol ar gael ar gyfer cydlynu'r ddarpariaeth i ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. |

### Rheoli'r Ysgol

Mae angen i arweinwyr ddarparu trefniadaeth a rheolaeth effeithiol yn yr ysgol y maen nhw'n ei harwain a sicrhau bod yr ysgol a'r bobl, a'r adnoddau sydd ynddi, yn cael eu trefnu a'u rheoli i greu amgylchedd dysgu effeithlon, effeithiol a diogel. Dylai arweinwyr gyflwyno prosesau effeithiol i ddatblygu ac adolygu polisïau a chynlluniau a sicrhau bod defnydd effeithiol ac effeithlon yn cael ei wneud o'r adnoddau a'r cyllid sydd ar gael.

| Rheoli'r Ysgol | |
|---|---|
| 37. | Sicrhau bod y dyletswyddau proffesiynol a'r amodau gwaith fel yr amlinellir yn y gofynion statudol, gan gynnwys y rhai sy'n berthnasol i'r pennaeth, yn cael eu bodloni. |
| 38. | Cynhyrchu a gweithredu cynlluniau a pholisïau gwella clir, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ar gyfer datblygu'r ysgol a'i chyfleusterau. |
| 39. | Sicrhau bod polisïau ac arferion yn ystyried amgylchiadau, polisïau a mentrau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys dwyieithrwydd a'r dimensiwn Cymreig. |

| Rheoli'r Ysgol | |
|---|---|
| 40. | Creu, ailfodelu a chynnal strwythurau a systemau trefniadol sy'n rhannu arweinyddiaeth ac yn caniatáu i'r ysgol gael ei rhedeg yn effeithlon ac effeithiol o ddydd i ddydd. |
| 41. | Monitro, gwerthuso ac adolygu effaith polisïau, blaenoriaethau a thargedau'r ysgol ar waith. |
| 42. | Gweithredu ar ganlyniadau ymarferion hunanarfarnu yr ysgol ac arolygiadau allanol gan Estyn i ysgogi gwelliannau yn yr ysgol. |
| 43. | Defnyddio gwybodaeth a data o'r ysgol, ac o'r tu allan iddi, fel sail i ddatblygiadau rheolaethol a threfniadol. |
| 44. | Gwneud defnydd effeithiol o'r gefnogaeth a'r her a gyflwynir gan yr ALI a chyrff perthnasol eraill. |
| 45. | Rheoli adnoddau ariannol ac adnoddau dynol yr ysgol yn effeithiol ac effeithlon i gyflawni blaenoriaethau a nodau addysg yr ysgol. |
| 46. | Recriwtio, cadw a defnyddio staff yn briodol a rheoli eu llwyth gwaith i wireddu gweledigaeth a nodau'r ysgol. |
| 47. | Rheoli a threfnu amgylchedd yr ysgol yn effeithlon ac effeithiol i sicrhau ei fod yn bodloni anghenion y cwricwlwm a rheoliadau iechyd a diogelwch. |
| 48. | Datblygu a gwella'r amgylchedd dysgu i fodloni anghenion dysgwyr yn well. |
| 49. | Monitro, gwerthuso ac adolygu amrywiaeth, ansawdd a defnydd yr holl adnoddau sydd ar gael i wella safon yr addysg i bob dysgwr a sicrhau gwerth am arian. |

**Sicrhau Atebolrwydd**

Mae penaethiaid yn atebol i'r corff llywodraethu am reolaeth yr ysgol, ei hamgylchedd a'i holl waith. Mae'r pennaeth yn atebol i'r corff llywodraethu, y dysgwyr, y rhieni, y llywodraethwyr a'r Awdurdod Lleol am safon yr addysg a gynigir yn yr ysgol, ac mae ganddo ef neu hi gyfrifoldeb proffesiynol i'r gymuned gyfan. Hefyd, mae arweinwyr yn gyfrifol am sicrhau cydgyfrifoldeb, fel bod pob aelod o gymuned yr ysgol yn derbyn eu bod yn atebol am y cyfraniad y maen nhw'n ei wneud tuag at ganlyniadau'r ysgol.

| Sicrhau Atebolrwydd | |
|---|---|
| 50. | Sicrhau bod atebolrwydd aelodau staff unigol wedi'i ddiffinio'n glir, ac wedi'i ddeall a'i gytuno, ac yn destun trefniadau adolygu mewnol ac allanol a hunanarfarnu trylwyr. |
| 51. | Gweithio gyda'r corff llywodraethu fel ei fod yn medru cyflawni ei gyfrifoldebau i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol a gwella safonau cyrhaeddiad. |
| 52. | Datblygu a chyflwyno adroddiad cydlynol, dealladwy a chywir o berfformiad yr ysgol i amryw o gynulleidfaoedd gan gynnwys rhieni a llywodraethwyr. |
| 53. | Defnyddio data a meincnodau i fonitro'r cynnydd sy'n cael ei wneud gan bob plentyn wrth ddysgu ac i roi ffocws i'r addysgu. |

| Sicrhau Atebolrwydd | |
|---|---|
| 54. | Gosod targedau ymestynnol ar gyfer cymuned yr ysgol gyfan yn seiliedig ar ddisgwyliadau sy'n gyson uchel. |
| 55. | Datblygu a chynnal hinsawdd o ddisgwyliadau uchel ar gyfer eu hunain ac eraill ac yn cymryd camau priodol pan fo perfformiad yn anfoddhaol. |

**Cryfhau'r Ffocws Cymunedol**

Dylai arweinwyr fod yn ymwybodol bod gwelliannau yn yr ysgol ac yn y gymuned yn ddibynnol ar ei gilydd ac yn dibynnu ar gydweithio effeithiol rhwng pawb sydd â diddordeb. Dylai arweinwyr annog trefniadau i gydweithio ag ysgolion a sefydliadau eraill, a chymryd rhan yn y trefniadau hynny, er mwyn dod â manteision i'r ysgol ac i rannu ei harbenigedd. Yn yr agwedd hon ar arweinyddiaeth, bydd rhaid i arweinwyr sicrhau cyfranogiad a chefnogaeth rhai o'r tu allan i'r ysgol.

| Cryfhau'r Ffocws Cymunedol | |
|---|---|
| 56. | Sefydlu a meithrin partneriaethau ag ysgolion eraill i rannu arfer gorau a chefnogi'r broses o wella ysgolion. |
| 57. | Creu hinsawdd a diwylliant dysgu yn yr ysgol sy'n ystyried cyfoeth ac amrywiaeth cymuned yr ysgol, gan gynnwys yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. |
| 58. | Sicrhau bod gan yr ysgol ran gynhyrchiol fel aelod o'i chymuned leol, a'r gymuned genedlaethol a byd-eang. |
| 59. | Creu a hyrwyddo strategaethau cadarnhaol i ddatblygu cysylltiadau hiliol da ac i fynd i'r afael ag aflonyddu hiliol. |
| 60. | Hyrwyddo agweddau priodol tuag at anabledd ac anghenion dysgu ychwanegol sy'n hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant. |
| 61. | Sicrhau bod yr ysgol yn chwarae rhan ganolog yn y gymuned. |
| 62. | Datblygu dinasyddiaeth dysgwyr er mwyn iddynt wneud cyfraniad cadarnhaol i'r gymuned leol a'r gymuned ehangach. |
| 63. | Cydweithio ag asiantaethau eraill, gan gynnwys yr ALl, i ddarparu ar gyfer lles dysgwyr a'u teuluoedd. |
| 64. | Creu a chynnal partneriaeth effeithiol â rhieni, gwarchodwyr a gofalwyr i gefnogi cyflawniad a datblygiad proffesiynol dysgwyr, a'u gwella. |
| 65. | Cydweithio yn yr ysgol a thu allan iddi i gyflawni nodau ac amcanion yr ysgol. |
| 66. | Cydweithio ag athrawon a chydweithwyr, gan gynnwys y rheini o asiantaethau allanol, i wella dysgu a lles y rheini y maen nhw'n eu haddysgu. |